**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad cyn Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd o'r enw: ‘Ar Gof a Chadw? Adroddiad ar bwy sy'n cael eu coffáu mewn mannau cyhoeddus'**

**Tachwedd 2021**

---

Hoffwn ddiolch i Gadeirydd ac aelodau'r cyn Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu am ei adroddiad a'i argymhellion ystyriol. Cytunaf â chasgliadau'r Pwyllgor fod angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o'n hanes, yn cynnwys rhai o’r elfennau mwy problemus a phoenus o’n hetifeddiaeth o’r gorffennol. Bwriad yr archwiliad dan arweiniad Gaynor Legall, ‘Y Fasnach mewn Caethweision a’r Ymerodraeth Brydeinig: Archwiliad o Goffáu yng Nghymru’ oedd nodi henebion cyhoeddus, enwau strydoedd ac adeiladau yng Nghymru sy'n gysylltiedig â'r fasnach mewn caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig. Mae'r nodau a'r cynllun gweithredu drafft ar gyfer y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn cyfeirio'n benodol at fynd i'r afael â chanfyddiadau Archwiliad Legall ac mae hyn bellach yn ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu.

Cytunaf hefyd â chasgliad y Pwyllgor mai cymunedau lleol a ddylai gael y gair olaf ar weithredoedd coffáu yn eu hardal ac y dylid cymryd camau i hwyluso hyn, gan gynnwys drwy ddatblygu canllawiau newydd.

Nodir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod.

**Argymhelliad 1**
Dylai Llywodraeth Cymru roi cyhoeddusrwydd i waith Archwiliad Legall o Goffáu trwy raglen o ymgysylltu â chymunedau a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

<u>**Derbyn**</u> / Derbyn mewn egwyddor / Gwrthod

Cafodd yr adroddiad – ac mae'n parhau i gael – sylw helaeth yn y cyfryngau yn y wasg genedlaethol yn y DU ac yng Nghymru.

Mae adroddiad llawn yr Archwiliad wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae Cadw hefyd yn paratoi tudalen bwrpasol ar ei wefan a fydd yn cynnwys yr Archwiliad a gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r hanes sy'n gysylltiedig â grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru.

Mae Cadw wedi cyhoeddi erthygl yn Etifeddiaeth y Cymry – a ddosbarthwyd i'w 40,000 o aelodau – gan dynnu sylw at yr archwiliad a chrynhoi ei ganfyddiadau. Bydd Cadw yn parhau i archwilio ffyrdd pellach o roi cyhoeddusrwydd i waith yr archwiliad drwy ymgysylltu â chymunedau a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Codwyd ymwybyddiaeth o'r archwiliad yn aml wrth baratoi ac ymgysylltu ar gyfer adran diwylliant a threftadaeth y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

Bydd gwaith ymgysylltu helaeth â chymunedau, gyda gweithdai wedi'u cynllunio, yn ystod y broses o baratoi canllawiau newydd arfaethedig ar goffáu cyhoeddus.

<u>Goblygiadau ariannol</u>

Dim - rhan o gyllideb bresennol Cadw.

**Argymhelliad 2**
Dylai Llywodraeth Cymru roi'r cyfrifoldeb terfynol dros benderfyniadau sy'n ymwneud â cherfluniau, henebion neu goffadwriaethau dadleuol i awdurdodau lleol a chymunedau. Fodd bynnag, mae rhai prosesau ac egwyddorion pwysig a ddylai fod yn berthnasol ac y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arweinyddiaeth ac arweiniad i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill arnynt.

**Derbyn** / Derbyn mewn egwyddor / Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn, yn y rhan fwyaf o achosion, mai awdurdodau lleol a chymunedau sydd â'r cyfrifoldeb terfynol dros benderfyniadau sy'n ymwneud â cherfluniau, henebion neu goffadwriaethau dadleuol. Cydnabyddir hefyd y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arweiniad i gefnogi'r broses hon o wneud penderfyniadau.

Goblygiadau ariannol
Dim – rhan o'r broses arferol o wneud penderfyniadau llywodraeth leol.

**Argymhelliad 3**
Dylai Llywodraeth Cymru greu dogfen ganllaw gynhwysfawr "siop un stop" ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus yn ymwneud â gweithredoedd coffáu yng Nghymru. Dylai'r canllawiau gynnwys:

- cyngor ar arferion gorau ar gyfer ymgynghori â chymunedau lleol;
- cyngor ar ddulliau cyfranogi ar gyfer ymgysylltu â grwpiau 'anoddach i'w cyrraedd' a grwpiau lleiafrifol;
- cyngor ar gynnwys barn arbenigol, gan gynnwys haneswyr lleol.

**Derbyn** / Derbyn mewn egwyddor / Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen paratoi canllawiau i gefnogi'r ffordd y mae awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus yn ymdrin â gweithredoedd coffáu cyhoeddus. Awgrymir bod hyn yn cael ei rannu'n ddwy ran wahanol:

Rhan 1 – i arwain a chefnogi penderfyniadau sy'n ymwneud â gweithredoedd coffáu hanesyddol.
Rhan 2 – i arwain a chefnogi penderfyniadau sy'n ymwneud â gweithredoedd coffáu yn y dyfodol – yn rhannol i unioni'r anghydbwysedd sy'n amlwg ar hyn o bryd mewn gweithredoedd coffáu cyhoeddus presennol.

Bydd y gwaith o baratoi'r canllawiau yn cael ei arwain gan dîm bach, o nifer o adrannau'r llywodraeth.

Goblygiadau ariannol
Bydd y gwaith o baratoi'r canllawiau yn gymharol fach ac fe ddaw o'r cyllidebau presennol.

**Argymhelliad 4**

Dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar feini prawf i'w cynnwys yn y ddogfen ganllaw y gellir eu defnyddio fel "rhestr wirio ddiagnostig" gan awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus perthnasol wrth benderfynu a ddylid ymgynghori ar adleoli neu roi mwy o gyd-destun yn achos cerflun neu goffâd. Dylai'r rhestr wirio hon o feini prawf addasu enghreifftiau presennol o arfer da a dylai gynnwys:

- A yw'r person o arwyddocâd hanesyddol?
- A yw'r person hwn wedi cael effaith genedlaethol neu effaith gadarnhaol sylweddol ar ei faes?
- Sut yr oedd y person hwn yn cael ei ystyried ar y pryd a sut mae'n cael ei weld heddiw? A yw'n darparu enghraifft dda i bobl?
- Sut mae'r person hwn yn cael ei weld ar draws cymunedau – gan gynnwys cymunedau a grwpiau lleiafrifol?
- A yw'r person hwn wedi cyfrannu at les a hapusrwydd y cyhoedd?

**<u>Derbyn</u>** / Derbyn mewn egwyddor / Gwrthod

Bydd canllawiau arfaethedig Llywodraeth Cymru yn ystyried unrhyw feini prawf y gallai fod eu hangen wrth asesu neu werthuso coffadwriaethau hanesyddol dadleuol posibl. Y bwriad yw ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid perthnasol wrth ddatblygu unrhyw feini prawf o'r fath.

<u>Goblygiadau ariannol</u>
Daw'r cyllid ar gyfer canllawiau arfaethedig Llywodraeth Cymru o gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 5**
Mewn achosion lle mae cerfluniau dadleuol wedi'u nodi, dylai awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus ymgysylltu â chymunedau lleol, arbenigwyr a haneswyr i gytuno ar ddarpariaeth mwy o wybodaeth a chyd-destun. Dylai Llywodraeth Cymru nodi safbwynt polisi clir yn hyn o beth.

**<u>Derbyn</u>** / Derbyn mewn egwyddor / Gwrthod

Bydd canllawiau arfaethedig Llywodraeth Cymru yn pwysleisio'r angen am ymgynghori helaeth wrth ystyried cerfluniau dadleuol, gan gynnwys ymgynghori â chymunedau ac arbenigwyr. Bydd y canllawiau'n nodi cyd-destun polisi Llywodraeth Cymru o ran hyn.

<u>Goblygiadau ariannol</u>
Daw'r cyllid ar gyfer canllawiau arfaethedig Llywodraeth Cymru o gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 6**
Dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn pa asesiad y mae wedi'i wneud o oblygiadau ariannol tynnu cerfluniau i lawr (mewn achosion lle mae cymunedau lleol wedi clustnodi cerflun i gael ei dynnu i lawr) a sut bydd yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chyrff treftadaeth i sicrhau bod ganddynt yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i wneud gwaith pellach yn y maes hwn.

Derbyn / **<u>Derbyn mewn egwyddor</u>** / Gwrthod

Bydd y goblygiadau ariannol a'r ffynonellau posibl o gymorth ariannol – er enghraifft ail-ddehongli, ail-leoli – yn cael eu hystyried fel rhan o ganllawiau arfaethedig Llywodraeth Cymru. Mae'n debygol y gallai hyn fod yn gymhleth a bydd yn ddibynnol ar amgylchiadau unigol. Er enghraifft, gallai costau gynnwys ymgysylltu â chymunedau lleol, datgymalu, storio a dod o hyd i gartref newydd ar gyfer cerflun.

<u>Goblygiadau ariannol</u>
Bydd goblygiadau ariannol i unrhyw gynnig i dynnu cerflun i lawr. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i unrhyw asesiad o'r goblygiadau ariannol gael ei lunio'n fras iawn, o ystyried natur anhysbys unrhyw gynigion posibl yn y dyfodol. Er enghraifft, byddai'n dibynnu ar natur a maint y cerflun y cynigir ei dynnu i lawr a'r cynlluniau ar gyfer ei storio neu arddangos ei gyd-destun yn y dyfodol.

**Argymhelliad 7**
Dylai Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, elusennau, a'r sector treftadaeth i nodi ffyrdd y gellir mynd i'r afael â'r tangynrychiolaeth bresennol o ran grwpiau penodol, gyda'r bwriad o gomisiynu cerfluniau neu weithiau celf coffáu newydd yng Nghymru.

**<u>Derbyn</u>** / Derbyn mewn egwyddor / Gwrthod

Ymddengys fod partneriaeth o'r math hwn, i nodi ffyrdd y gellir mynd i'r afael â'r tangynrychiolaeth bresennol o ran grwpiau penodol, yn gwbl briodol. Tynnodd Archwiliad Legall sylw at dangynrychiolaeth grwpiau o'r fath. Bydd canllawiau arfaethedig Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallai hyn gael ei gyflawni gan y sawl sy'n gwneud penderfyniadau ym maes llywodraeth leol ac mewn cyrff cyhoeddus. Mae'r heneb newydd i Betty Campbell yng nghanol Caerdydd yn enghraifft dda a llwyddiannus o bartneriaeth o'r fath.

<u>Goblygiadau ariannol</u>
Bydd angen ystyried goblygiadau ariannol mynd i'r afael â'r materion hyn fel rhan o ganllawiau arfaethedig Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 8**
Dylai Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, elusennau, a'r sector treftadaeth i nodi lleoliadau addas ar gyfer cerfluniau neu weithiau celf coffáu o arwyddocâd cenedlaethol yng Nghymru i fynd i'r afael â'r tangynrychiolaeth a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

**<u>Derbyn</u>** / Derbyn mewn egwyddor / Gwrthod

Ymddengys fod partneriaeth o'r math hwn, i nodi lleoliadau addas ar gyfer unrhyw strwythurau neu weithiau coffa o'r fath yn y dyfodol, yn hollol briodol. Bydd yr egwyddorion i'w hystyried yn rhan o ganllawiau arfaethedig Llywodraeth Cymru.

<u>Goblygiadau ariannol</u>
Bydd goblygiadau ariannol i unrhyw gynnig i gomisiynu cerfluniau neu weithiau coffa newydd yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i unrhyw asesiad o'r goblygiadau

ariannol gael ei lunio’n fras iawn yng nghanllawiau arfaethedig Llywodraeth Cymru, o ystyried natur anhysbys unrhyw gynigion posibl yn y dyfodol.

**Argymhelliad 9**
Dylai Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, elusennau, a’r sector treftadaeth i greu cynllun plac cenedlaethol newydd o goffáu cyhoeddus yn unol â’r egwyddorion a’r meini prawf a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

**Derbyn** / **Derbyn mewn egwyddor** / Gwrthod

Rydym yn sympathetig i'r syniad o gynllun plac cenedlaethol. Fodd bynnag, byddai angen ystyried yn ofalus sut y gellid rhoi hyn ar waith yn ymarferol. Er enghraifft, mae’r rhan fwyaf o’r cynlluniau plac presennol yn cael eu rhedeg a'u rheoli ar lefel leol, ac ni fyddem am ddiystyru pwysigrwydd gwneud penderfyniadau lleol ynghylch coffáu. Mae cynllun plac piws cenedlaethol hefyd eisoes ar waith ar gyfer coffáu cyfraniad menywod i gymdeithas Cymru. Ni fydd cyflwyno cynllun cenedlaethol pellach, yn ychwanegol at y cynlluniau hyn sy’n bodoli eisoes, yn syml. Yn ogystal, bydd yn bwysig ystyried dulliau gweithredu eraill a ddefnyddir mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Bydd angen cynnal arfarniad manylach o'r opsiynau.

Goblygiadau ariannol
Bydd goblygiadau ariannol o ran sefydlu cynlluniau plac o'r math hwn a bydd angen ystyried hyn fel rhan o'r arfarniad opsiynau a gynigir uchod.